ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Rhaglen Athrawon Graddedig –
Datganiad ar Bolisi a Blaenoriaethau Blwyddyn Academaidd 2019/20

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

ISBN digidol 978 1 78964 794 5
© Hawlfraint y Goron Chwefror 2019
WG37120

Cynnwys

1. Trosolwg 2
2. Statws 2
3. Y lleoedd a gynigir yn 2019/20 2
4. Ceisiadau i'r RhAG 4
5. Y grantiau hyfforddi a'r grantiau cyflog sydd ar gael 5
6. Nodiadau ynghylch dyletswyddau ysgolion i gyflogi hyfforddeion 5
7. Gofynion o dan Gynllun 2019 6
8. Rhifedd a llythrennedd 7
9. Hyfforddi'n rhan-amser 7
10. Cyfyngiadau ynghylch dilyn y RhAG 7
11. Atodiad A - Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth 2019 (Addysg Cymru 2019 Rhif 03) 9

1. Trosolwg

1.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r gofynion allweddol ar gyfer gweithredu'r cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth o dan y Rhaglen Athrawon Graddedig yng Nghymru yn y flwyddyn academaidd 2019/20. Amlinella hefyd y blaenoriaethau polisi a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) eu hystyried wrth reoli'r ddarpariaeth o dan y Rhaglen Athrawon Graddedig.

1.2 Mae Cynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth 2019 (2019 Rhif 03) ("Cynllun 2019) yn nodi gofynion statudol y Rhaglen Athrawon Graddedig (RhAG) a'r Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion (RhHYiR), ac yn nodi sut y mae'r rhaglen yn cael ei gweithredu yng Nghymru. Yn 2019/20, bydd y RhAG yn gweithredu ar y sail y blaenoriaethau polisi a'r gweithdrefnau a amlinellir isod.

1.3 Ar gyfer 2019/20, darparwyr achrededig hyfforddiant cychwynnol athrawon fydd yn gyfrifol am weithredu a gweinyddu'r RhAG, gan gydweithio'n agos ag arweinwyr y Consortia Rhanbarthol i nodi a diwallu anghenion recriwtio penodol a meysydd blaenoriaeth y gellir eu nodi o ran recriwtio o fewn eu rhanbarthau.

2. Statws

2.1 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r blaenoriaethau polisi a'r gweithdrefnau yng Nghymru mewn perthynas â'r RhAG ar gyfer y flwyddyn academaidd 2019/20. Fe'i hystyrir yn ddatganiad polisi gan Lywodraeth Cymru ac amlinella nifer a chategorïau'r lleoedd RhAG sydd ar gael yn 2019/20, ynghyd â lefel y cyllid grant sydd ar gael. Mae'n pennu yn ogystal y grant hyfforddi a'r grant cyflog sy'n gysylltiedig â mathau penodol o leoedd, yn unol â pharagraffau 16 a 17 o Gynllun 2019.

3. Y lleoedd a gynigir yn 2019/20

3.1 Ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20 bydd y lleoedd RhAG canlynol ar gael i ysgolion drwy gyflwyno cais i'r darparwyr HCA ar gyfer lleoedd hyfforddi RhAG a fydd yn dechrau ar 1 Medi 2019 neu ar ôl hynny. Er bod y RhAG yn cael ei gweinyddu gan y darparwyr HCA, bydd yn ofynnol iddynt gydweithredu â'r Consortia Rhanbarthol er mwyn nodi a diwallu anghenion recriwtio lleol penodol a meysydd blaenoriaeth y gellir eu nodi o ran recriwtio o fewn eu rhanbarthau. Bydd y darparwyr HCA yn cadarnhau'r ceisiadau a gymeradwyir i ddechrau rhaglenni RhAG ym mis Medi 2019.[1]

(i) Uchafswm o 18 o leoedd ar gyfer ysgolion cynradd a gynhelir gyda grant hyfforddi o hyd at £4,500 tuag at gostau hyfforddi. Byddem yn rhagweld y bydd gan ymgeiswyr yn y categori hwn radd mewn pwnc sy'n berthnasol i saith maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen, neu sy'n

[1] Er mwyn nodi bod y lleoedd a neilltuir i bob darparwr HCA ym mhob categori yn gyfansymiau dangosol. Rhagwelir y bydd lleoedd yn cael eu trosglwyddo rhwng darparwyr a Chonsortia Rhanbarthol er mwyn sicrhau bod cynifer â phosibl o leoedd yn cael eu llenwi.

berthnasol i bwnc craidd, neu bwnc cysylltiedig nad yw'n bwnc craidd, a addysgir yng Nghyfnod Allweddol 2.[2]

(ii) Uchafswm o 18 o leoedd ar gyfer ysgolion uwchradd a gynhelir i gefnogi athrawon newydd sy'n hyfforddi mewn ysgolion uwchradd lle bo blaenoriaeth o ran angen recriwtio wedi cael ei nodi o fewn y rhanbarth. Rhaid rhoi blaenoriaeth arbennig i bynciau blaenoriaeth dynodedig – sef mathemateg, ffiseg, cemeg, ieithoedd tramor modern, TGCh/Cyfrifiadureg a Chymraeg. Caiff y lleoedd hyn eu cefnogi gan grant hyfforddi o hyd at £4,500 tuag at gostau hyfforddi a chyfraniad grant cyflog o hyd at £14,500. Bydd darparwyr HCA yn rhoi ystyriaeth i flaenoriaethu ceisiadau cyfrwng Cymraeg ar gyfer unrhyw rai o'r pynciau â blaenoriaeth o ran recriwtio, os gellir dangos bod angen diwallu anghenion recriwtio yn lleol. **Disgwylir y bydd gan ymgeiswyr yn y categori hwn radd mewn pwnc sydd â phernasedd o 50% o leiaf i'r pwnc arbenigol y maent yn dymuno ei addysgu.**

(iii) Nifer o leoedd nas ariennir (dim mwy na 18) er mwyn mynd i'r afael â phrinder recriwtio a gofynion penodol ar gyfer:

(a) Athrawon cynradd neu uwchradd sydd â chymwysterau addysgu a gafwyd dramor (y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd [AEE][3] neu'r Swistir), ond sydd heb SAC ac sydd wedi'u cyflogi mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru ers o leiaf blwyddyn.

(b) Unigolion sydd â chymhwyster addysgu Addysg Bellach (AB), ond sydd heb SAC, ac sydd wedi'u cyflogi mewn ysgol a gynhelir ers o leiaf blwyddyn.

(c) Ymgeiswyr sy'n awyddus i hyfforddi ar gyfer addysgu pwnc galwedigaethol sy'n berthnasol i ddarparu cwricwlwm 14-19 lleol mewn ysgolion a gynhelir, lle nodwyd bod angen brys am athro cymwysedig. Yn dibynnu ar y galw rhanbarthol a nodwyd fel rhan o waith cynllunio'r gweithlu, byddem yn argymell yn gryf nad oes mwy na dau le fesul darparwr yn cael eu neilltuo i ymgeiswyr o dan y categori hwn, oni ellir dangos achos cryf dros angen lleol. **Ni cheir defnyddio'r lleoedd hyn ond ar gyfer pynciau uwchradd nad ydynt ar gael drwy gyrsiau HCA sy'n cynnig SAC o dan ofal darparwyr HCA achrededig. Er mwyn bod yn gymwys o dan y categori hwn, rhaid bod y pwnc galwedigaethol wedi'i restru yng nghronfa ddata Cymwysterau Cymru, a rhaid iddo gyfrif am dros 50% o amserlen addysgu gyfan yr ymgeisydd.**

[2] Y pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 yw mathemateg, gwyddoniaeth, Cymraeg neu Saesneg. Y pynciau nad ydynt yn bynciau craidd yw hanes, daearyddiaeth, TG, celf a dylunio, dylunio a thechnoleg, cerddoriaeth, addysg gorfforol a Chymraeg ail iaith.

[3] Mae'r AEE yn cynnwys aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd, Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein.

(d) Ni fydd grantiau hyfforddi na grantiau cyflog ar gael ar gyfer unrhyw leoedd a neilltuir o dan y categori nas ariennir yng nghategorïau (a) – (c) uchod. Bydd angen i'r darparwr HCA adennill yr holl gostau yn uniongyrchol oddi wrth yr ysgol.

4. Ceisiadau i'r RhAG

4.1 Mae'n rhaid i'r holl geisiadau gael eu cyflwyno i ddarparwr HCA. Bydd darparwyr HCA yn cydweithio â'r Consortia Rhanbarthol i ddefnyddio eu harbenigedd a'u gwybodaeth ranbarthol o ran nodi'r anghenion recriwtio a'r meysydd blaenoriaeth o ran recriwtio o fewn eu rhanbarthau, er mwyn nodi pa geisiadau i'w cefnogi o dan y RhAG. Bydd y darparwyr HCA yn pennu'r dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau ac yn sicrhau bod yr holl ddatganiadau a gwiriadau diogelu angenrheidiol wedi cael eu gwneud. Bydd y darparwyr HCA yn gweithio gyda'r Consortia Rhanbarthol ac ysgolion i lunio (lle y bo'n briodol) a monitro cynlluniau hyfforddi'r hyfforddeion, a ddylai fynd i'r afael yn benodol â gofynion hyfforddi'r hyfforddai unigol a hyd priodol y cynllun hyfforddi. Bydd darparwyr HCA yn cynnal yr asesiad terfynol yn unol â'r Safonau SAC ac yn hysbysu Cyngor y Gweithlu Addysg.

4.2 Bydd darparwyr HCA yn gyfrifol am ymateb i ymholiadau ynghylch eu meini prawf cymhwyso, gan gynnwys cydweddoldeb cymwysterau gradd ymgeiswyr.

4.3 Rhagwelir y bydd y darparwyr HCA yn cydweithio'n agos â'r Consortia Rhanbarthol i ystyried y nifer o leoedd a fydd yn ofynnol o dan bob categori, yn dibynnu ar ganlyniadau gwaith rhanbarthol cynllunio'r gweithlu sydd wedi'i wneud. Os gallai galw gynyddu o fewn rhanbarth am gategori penodol o fewn cyfanswm cyffredinol y lleoedd a ganiateir, gall darparwyr HCA drosglwyddo niferoedd rhwng darparwyr HCA eraill er mwyn bodloni'r galw hwn, cyn belled â'u bod o fewn y niferoedd cyffredinol a ddyrennir i bob categori.

4.4 Dylid nodi y croesewir ceisiadau gan ysgolion yn y sector cyfrwng Cymraeg yn arbennig. O ran y lleoedd uwchradd, wrth ystyried cymeradwyo rhaglenni rhaid rhoi blaenoriaeth arbennig i'r rhai sydd yn y pynciau blaenoriaeth dynodedig – mathemateg, ffiseg, cemeg ieithoedd tramor modern, Cyfrifiadureg a Chymraeg – er mwyn cefnogi blaenoriaethau recriwtio ehangach Llywodraeth Cymru.

4.5 Ni fydd cyfyngiad ar uchafswm nifer y ceisiadau y caiff unrhyw ysgol unigol eu cyflwyno yn ystod 2019/20, ond bydd angen i ddarparwyr HCA a Chonsortia Rhanbarthol ystyried yn ofalus effaith lleoli mwy nag un hyfforddai RhAG o fewn un ysgol ar eu gwaith cyffredinol o ran modelu'r gweithlu ac ar yr ysgol ei hun.

4.6 Bydd copi o'r Datganiad hwn yn ymddangos ar wefan Llywodraeth Cymru, ynghyd â manylion cyswllt y darparwyr HCA sy'n gysylltiedig â phrosesau ymgeisio'r RhAG.

5. Y grantiau hyfforddi a'r grantiau cyflog sydd ar gael

5.1 Mae grantiau hyfforddi yn 2019/20 ar gael i ddarparwyr HCA sy'n darparu hyfforddiant at ddibenion y RhAG, er mwyn talu costau'r hyfforddiant hwnnw'n llwyr neu'n rhannol. Nid yw grantiau hyfforddi ond ar gael ar gyfer y lleoedd RhAG a restrir ym mharagraffau 3.1(i) a 3.1(ii).

5.2 Caiff y grant hyfforddi ei dalu gan Lywodraeth Cymru i'r darparwr HCA, a fydd yn gyfrifol am ddarparu'r cyllid hwnnw i'r ysgolion dan sylw.

5.3 Mae lefelau'r grant hyfforddi o £4,500 yn seiliedig ar hyfforddai sy'n hyfforddi am flwyddyn gyfan, yn llawn amser, mewn ysgol. Telir pro rata am raglenni byrrach. Caiff rhaglenni lle y mae hyfforddai yn cael ei gyflogi'n rhan-amser eu hariannu ar gyfradd gyfatebol, pro rata. Gall Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr HCA ad-dalu rhan o unrhyw grant hyfforddi neu'r cyfan ohono os bydd y cyfnod o hyfforddiant, am ba bynnag reswm, yn fyrrach na'r cyfnod hyfforddi a bennwyd pan ddyfarnwyd y grant. Y swm y bydd gofyn ei ad-dalu am unrhyw grant a ddarparwyd fydd unrhyw arian grant nad oedd wedi'i ddefnyddio pan ddaeth yr hyfforddiant i ben.

5.4 Mae grantiau cyflog ar gael yn 2019/20 ar gyfer ysgolion uwchradd a gynhelir sy'n cynnig lleoedd RhAG. Maent yn gyfraniad tuag at gostau cyflogi unigolion ar y lleoedd hynny i'r ysgol. Nid eu bwriad yw talu'r holl gostau cysylltiedig ac nid ydynt yn daliad ar gyfer yr unigolyn dan sylw. Wrth ystyried pa leoedd i'w cefnogi yn y categori hwn, rhaid rhoi blaenoriaeth arbennig i geisiadau sydd yn y pynciau blaenoriaeth dynodedig – mathemateg, ffiseg, cemeg, ieithoedd tramor modern, Cyfrifiadureg a Chymraeg – er mwyn cefnogi blaenoriaethau recriwtio ehangach Llywodraeth Cymru.

5.5 Mae lefelau'r grant cyflog o £14,500 yn seiliedig ar hyfforddai sy'n hyfforddi am flwyddyn gyfan, yn llawn amser, mewn ysgol. Caiff rhaglenni byrrach neu raglenni lle y caiff hyfforddai ei gyflogi'n rhan-amser eu hariannu ar sail pro rata.

5.6 Gall Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr HCA ad-dalu rhan o unrhyw grant cyflog neu'r cyfan ohono os bydd y cyfnod o hyfforddi, am ba bynnag reswm, yn fyrrach na'r cyfnod hyfforddi a bennwyd pan ddyfarnwyd y grant. Bydd y swm y bydd gofyn ei ad-dalu am unrhyw grant cyflog a ddarparwyd yn gymesur â'r ganran o hyd y rhaglen hyfforddi wreiddiol nas dilynwyd. O dan amgylchiadau o'r fath byddai angen i ddarparwyr HCA geisio adennill swm cyfatebol oddi wrth yr ysgolion dan sylw.

6. Nodiadau ynghylch dyletswyddau ysgolion i gyflogi hyfforddeion

6.1 Mae'n rhaid i bob ysgol a gynhelir sy'n cyflogi athrawon ar le hyfforddi RhAG dalu cyflog i'r hyfforddai ynghyd ag unrhyw gostau eraill fel y'u hamlinellir yn Nogfen Tâl ac Amodau Athrawon, ar bwynt 1 neu uwch ar

raddfa gyflog athrawon heb gymhwyso, a chydymffurfio ag unrhyw ofynion a deddfwriaeth eraill ynghylch cyflogaeth sydd mewn grym ar hyn o bryd. Rhaid i'r ysgolion a'r Consortia ymrwymo i hyn ar adeg cyflwyno'r cais.

6.2 Mae gofyn i'r darparwyr HCA wirio statws cyflogaeth yr holl hyfforddeion sydd ar y rhaglen cyn cymeradwyo rhaglen hyfforddi, er mwyn sicrhau bod yr ymgeisydd yn cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan yr ysgol. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i bob lle hyfforddi, pa un a yw'n cael ei ariannu gan grant ai peidio. Dylai'r gymeradwyaeth gael ei dal yn ôl neu'i thynnu'n ôl os na chydymffurfir â'r gofyniad hwn. Ni ddylai ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n eu hariannu eu hunain gael eu hystyried ar unrhyw gyfrif.

6.3 Bydd angen cymorth ychwanegol, arweiniad a chynllun hyfforddi trefnus ar unigolion wrth iddynt hyfforddi fel y gallant fodloni Safonau'r SAC ar ddiwedd eu rhaglen hyfforddi. Mae'n rhaid i drefniadau gweithio'r hyfforddeion roi cyfle iddynt fodloni'r Safonau SAC ynghyd â gofynion Cynllun 2019.

6.4 Mae'n rhaid i ysgolion gyflogi hyfforddeion a all addysgu pynciau y mae ganddynt gymwysterau addas ar eu cyfer ac a addysgir fel rhan o'r cwricwlwm cenedlaethol neu ar lefel arholiadau cyhoeddus.

7. Gofynion o dan Gynllun 2019

7.1 Mae'r gofynion statudol ar gyfer darparu cyrsiau HCA mewn sefydliadau addysg uwch yn pennu bod yn rhaid i bob athro neu athrawes dan hyfforddiant ennill profiad mewn o leiaf ddwy ysgol fel rhan o'u lleoliadau addysgu ymarferol. Mae hyn yn llai syml i hyfforddeion ar gyrsiau hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth, gan y cânt eu cyflogi fel athrawon gan ysgol. Serch hynny, gellid ystyried defnyddio ysgolion eraill, er enghraifft, neu dreulio amser mewn ysgolion o fewn y clwstwr o ysgolion a ffurfiwyd neu yn yr ysgolion arweiniol. Mae'n bosibl y byddai ysgolion â chefndir economaidd-gymdeithasol gwahanol i'r ysgol hyfforddi, ysgolion cynradd neu uwchradd sy'n bwydo'r ysgol hyfforddi, neu unrhyw brofiad arall mewn ysgol sy'n briodol ym marn yr ysgol arweiniol neu'r Consortia mewn cydweithrediad â'r darparwr HCA, a fyddai'n fuddiol i ddatblygiad cyffredinol hyfforddai, hefyd yn briodol. Argymhellir bod y cyfnod hwn yn para o leiaf 10 diwrnod er mwyn sicrhau'r effaith orau bosibl i'r hyfforddai.

7.2 Er mwyn cysylltu hyfforddeion â'r gymuned HCA ehangach, mae gofyniad sy'n pennu y dylid ymgymryd ag o leiaf 10 diwrnod o hyfforddiant y flwyddyn o dan arweiniad Prifysgol. Gallai'r hyfforddiant hwn gael ei ddarparu mewn prifysgol neu leoliad arall sy'n galluogi hyfforddeion i ryngweithio a chwrdd â hyfforddeion eraill sydd ar gynlluniau hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth, neu â myfyrwyr ar gyrsiau HCA prif ffrwd. Byddai hyn yn galluogi hyfforddeion, er enghraifft, i fynychu darlithoedd ar addysgeg neu ddarlithoedd yn ymwneud â gwella gwybodaeth am bynciau gyda myfyrwyr sydd ar gyrsiau HCA prif ffrwd neu sesiynau grŵp dan arweiniad tiwtor gyda hyfforddeion eraill ar gynlluniau hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth.

7.3 Mae gofyn hefyd i hyfforddeion gwblhau o leiaf 50 o ddyddiau o hyfforddiant mewn blwyddyn (pro rata) mewn ysgol, sy'n cynnwys lleoliad gwaith mewn ysgol(ion) arall/eraill, er mwyn bod yn gwbl ar wahân i amserlen addysgu'r hyfforddai.

8. Rhifedd a llythrennedd

8.1 Dylai darparwyr HCA sicrhau y caiff pob hyfforddai sy'n dechrau ar RhAG ei asesu i weld bod ganddo sgiliau personol ymarferol mewn llythrennedd a rhifedd y gellir eu defnyddio mewn cyd-destun addysgu proffesiynol. Isafswm y gofynion mynediad ar gyfer pob rhaglen HCA, gan gynnwys llwybrau sy'n seiliedig ar gyflogaeth, yw gradd B TGAU neu'n uwch (neu gymhwyster cyfatebol) mewn Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Cymraeg Iaith neu Lenyddiaeth Cymraeg. Os bydd cymhwyster cyfwerth â gradd B yn cael ei gyflawni mewn Llenyddiaeth Saesneg neu Lenyddiaeth Cymraeg, rhaid cyflawni o leiaf gradd C yn yr arholiad TGAU cyfatebol mewn Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith (Gyntaf). Mae hefyd yn ofynnol gyflawni gradd B TGAU neu'n uwch (neu gymhwyster cyfatebol) mewn mathemateg.

8.2 Dylai darparwyr HCA hefyd sicrhau y caiff sgiliau personol hyfforddeion mewn llythrennedd a rhifedd eu hasesu'n rheolaidd a chywir drwy gydol eu rhaglen hyfforddi. Pan gaiff yr hyfforddai ei asesu i weld ei fod wedi cyrraedd y Safonau SAC, dylid cadarnhau bod yr hyfforddai yn parhau i gyrraedd y safon a nodwyd ym mharagraff 8.1.

8.3 Dylai ysgolion, Consortia a darparwyr HCA sicrhau bod yr hyfforddeion yn cael hyfforddiant ar addysgu rhifedd a llythrennedd sy'n briodol i'r cam a'r pwnc sy'n cael ei astudio a bod hynny'n rhan annatod o'u rhaglen hyfforddi.

9. Hyfforddi'n rhan-amser

9.1 Wrth ystyried y cynllun hyfforddi ar gyfer hyfforddai rhan-amser, dylai ysgolion, Consortia a darparwyr HCA sicrhau y bydd yr hyfforddai yn cael cyfleoedd i chwarae rhan yr un mor llawn â hyfforddai amser llawn ymhob agwedd ar waith yr ysgol. Rhagwelir y bydd hyfforddeion rhan-amser yn gallu ennill yr un faint o brofiad yn yr ystafell ddosbarth, ynghyd â hyfforddiant arall, â hyfforddai cyfatebol llawn amser.

9.2 Nid yw'n debygol y bydd y rhai sy'n gweithio am lai na 60% o'r wythnos ysgol, beth bynnag fo eu profiad blaenorol o addysgu, yn gallu cyflawni SAC yn yr un cyfnod â'r rhai sy'n gweithio'n llawn amser. O'r herwydd gellir ystyried ceisiadau am raglenni hirach i athrawon rhan-amser.

10. Cyfyngiadau ynghylch dilyn y RhAG

10.1 Mewn amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl i berson ymuno â'r RhAG fel athro neu athrawes anghenion arbennig. Wrth benderfynu a ellir ystyried cais RhAG gan ysgol anghenion arbennig, rhaid i'r darparwr HCA

a'r Consortia wybod i sicrwydd bod yr ysgol yn cyflwyno'r cwricwlwm llawn ar draws y ddau gyfnod i ddysgwyr sy'n berthnasol i'r cam astudio y byddai'r hyfforddai'n ei addysgu.

10.2 Byddai'n ofynnol i'r ymgeisydd a'r ysgol sy'n cefnogi fodloni'r holl ofynion mynediad eraill gan gynnwys mynychu hyfforddiant dan arweiniad prifysgol a dilyn peth hyfforddiant mewn ail ysgol brif ffrwd. Caiff y penderfyniad ynghylch cefnogi cais ei wneud yn gyfan gwbl yn ôl disgresiwn y Consortia Rhanbarthol a'r darparwr HCA mewn cydweithrediad, yn dibynnu ar y flaenoriaeth recriwtio a nodwyd gan y Consortia.

10.3 Ni all hyfforddi mewn Uned Cyfeirio Disgyblion na sefydliad Addysg Bellach fod yn rhan o raglen hyfforddi a gymeradwyir.

Tîm Addysg Gychwynnol Athrawon
Yr Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol
Chwefror 2019

Atodiad A

ADDYSG, CYMRU

2019 RHIF: 03

Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth 2019 ("Cynllun 2019")

Y Cefndir

1. Mae rheoliad 8 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012[1] ("Rheoliadau 2012") yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru sefydlu cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth a fydd yn galluogi unigolion sy'n cael eu cyflogi, neu sydd wedi'u cyflogi mewn ysgol neu sefydliad addysg arall (ar wahân i uned cyfeirio disgyblion) i ddod yn athrawon cymwysedig.

2. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i roi cymorth ariannol o dan adrannau 14-17 o Ddeddf Addysg 2002 at nifer o ddibenion a amlinellir yn adran 14. Mae'r dibenion penodol hynny'n cynnwys hyrwyddo recriwtio neu gadw athrawon neu staff heblaw athrawon, a darparu unrhyw fath o hyfforddiant i athrawon neu staff heblaw athrawon, a thalu am fuddion eraill neu eu darparu i athrawon neu staff heblaw athrawon. Mae'r grantiau a gaiff eu talu o dan Gynllun 2019 yn cael eu gwneud wrth arfer y pwerau hynny.

3. Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd hefyd o dan adran 10 o Ddeddf Addysg 1996 ("Deddf 1996") i hyrwyddo addysg pobl Cymru, ac o dan adran 11, i arfer eu pwerau mewn perthynas â chyrff a ariennir yn gyhoeddus sydd â chyfrifoldeb dros sicrhau darpariaeth addysg gynradd, uwchradd a phellach i hyrwyddo addysg o'r fath. Rhaid i Weinidogion Cymru arfer eu pwerau er mwyn gwella safonau, annog amrywiaeth a chynyddu'r dewis. Wrth ymgymryd â'r dyletswyddau hynny, mae adran 84A o Ddeddf Addysg 2005 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud y trefniadau hynny y maent yn ystyried y byddai o fantais iddynt eu gwneud er mwyn sicrhau cyfleusterau i hyfforddi athrawon ar gyfer ysgolion a gynhelir.

4. Mae'n bosibl y bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau ar wahân o dan reoliad 8(5) o Reoliadau 2012 a dylai'r rheini sy'n arfer unrhyw swyddogaeth o dan Gynllun 2019 roi ystyriaeth i'r canllawiau hynny.

Crynodeb o'r Cynllun

5. Mae Cynllun 2019 yn nodi gofynion y Rhaglen Athrawon Graddedig (RhAG), y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion (RhHYR) a'r Rhaglen Athrawon Cofrestredig (RhAC) (gyda'i gilydd fe'u gelwir yn "y rhaglenni"). Mae'n nodi hefyd sut y mae'r RhAG, y RhHYR a'r RhAC i'w gweithredu yng Nghymru. Mae'n nodi cwmpas y RhAG, y RhHYR a'r RhAC a manylion y gofynion cymhwysedd ar gyfer yr unigolion hynny sy'n dymuno dilyn llwybr i addysgu sy'n seiliedig ar gyflogaeth.

[1] O.S. 2012/724 – Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012

6. Ni fydd arian ar gael ar gyfer y RhAG os nad yw Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi unrhyw dargedau derbyn ar gyfer y rhaglen honno yn unol â darpariaethau Cynllun 2019. Dim ond os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi targedau derbyn iddynt yn unol â darpariaethau Cynllun 2019 y caiff darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) yng Nghymru weithredu'r RhAG .

7. Bydd Cynllun 2019 yn dod i rym ar gyfer rhaglenni'r RhAG lle mae'r cyfnod hyfforddi'n dechrau ar 1 Medi 2019 neu ar ôl hynny, ac ar gyfer rhaglenni'r RhHYR lle mae'r cyfnod hyfforddi'n dechrau ar 1 Mehefin 2019 neu ar ôl hynny.

8. Mae Cynllun 2019 yn disodli Cynllun Hyfforddi Athrawon ar Sail Cyflogaeth 2015 (2015 Rhif 01) ("Cynllun 2015"). Mae'r trefniadau trosiannol sydd wedi'u hamlinellu ym mharagraff 62 yn golygu y bydd darpariaethau Cynllun 2015 yn parhau i fod yn gymwys yn achos rhaglenni'r RhAG a ddechreuodd cyn 1 Medi 2019.

Dehongli

9. Ac eithrio lle mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, at ddibenion y ddogfen hon:-

Ystyr "rhaglen AGA achrededig" yw rhaglen sydd wedi'i hachredu gan Fwrdd Achredu Addysg Athrawon Cyngor y Gweithlu Addysg[2] a sefydlwyd yn unol â rheoliad 5 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017;

Ystyr "darparwr hyfforddiant AGA yn Lloegr" yw sefydliad sydd wedi'i achredu yn ddarparwr cyrsiau neu raglenni AGA yn Lloegr o dan reoliadau a wnaed mewn perthynas â Lloegr ac sydd o bryd i'w gilydd mewn grym o dan adran 132 o Ddeddf Addysg 2002[3];

Ystyr "sefydliad cymeradwy" yw corff a gontractiwyd neu a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru i drefnu a gweithredu'r RhHYR;

Ystyr "cyflogaeth" yw cyflogaeth o dan gontract cyflogaeth, neu dalu person i ddarparu gwasanaethau heb fod o dan gontract cyflogaeth, a dylid dehongli cyfeiriadau at fod yn gyflogedig yn unol â hynny;

Ystyr "darparwr AGA ar sail cyflogaeth" yw darparwr rhaglen AGA sydd wedi'i hachredu, neu bartneriaeth weinyddol o sefydliadau o'r fath, y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi targed derbyn iddynt ar gyfer unrhyw raglen o dan Cynllun 2019;

Ystyr "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" yw'r cynllun y cyfeirir ato yn rheoliad 8 o Reoliadau 2012;

---

[2] Cyfeirir ati yn Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/165) yn achrediad pwyllgor hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol.

[3] Ar hyn o bryd, Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Lloegr) 2003 (O.S. 2003/1662), fel y'u diwygiwyd, O.S. 2007/2782, 2009/3156 a 2010/1172

“Ystyr “cynllun hyfforddi unigol” yw cynllun hyfforddi penodol sydd wedi'i lunio gan ddarparwr AGA ar sail cyflogaeth ac sy’n rhan o raglen hyfforddi ar sail cyflogaeth o dan Gynllun 2019;

Ystyr "ysgol" yw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol (heblaw uned cyfeirio disgyblion) neu ysgol arbennig nad yw’n cael ei chynnal felly neu ysgol annibynnol;

Ystyr “safonau penodedig” yw'r safonau sy'n gymwys adeg yr asesiad ac y mae Gweinidogion Cymru wedi pennu mai hwy yw’r safonau sy’n ofynnol gan unigolion sydd am fod yn athrawon cymwysedig[4];

Ystyr “addysgu" yw cyflawni gwaith o unrhyw fath sydd wedi ei benodi gan reoliadau a wnaed o dan adran 14 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014[5] a dylid dehongli “addysgu” yn unol â hynny;

Ystyr “sefydliad yn y Deyrnas Unedig” yw sefydliad a sefydlwyd yn y Deyrnas Unedig heblaw sefydliad y mae ei brif sefydliad y tu allan i’r Deyrnas Unedig, neu sy’n gysylltiedig â sefydliad o’r fath, neu sy’n rhan o sefydliad o’r fath.

Y Rhaglenni

10. Mae Cynllun 2019 yn cynnwys rhaglenni hyfforddi sy’n anelu at alluogi unigolion sy'n cael eu cyflogi, neu sydd wedi cael eu cyflogi mewn ysgol i ddod yn athrawon cymwysedig.

11. Mae'r RhAG yn llwybr ar sail cyflogaeth i unigolyn ddod yn athro cymwysedig o dan reoliad 5 o Reoliadau 2012 ac i ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC). O dan y rhaglen hon, caiff graddedigion nad oes ganddynt SAC ymgymryd â chyfnod hyfforddi drwy ddarparwr AGA ar sail cyflogaeth at ddibenion y RhAG fel rhan o Gynllun 2019, fel y bo modd eu cyflogi i addysgu mewn ysgol tra byddant yn dilyn rhaglen hyfforddi sydd wedi’i chymeradwyo ac y bwriedir iddi eu galluogi i fodloni'r safonau penodedig.

12. Mae'r RhHYR yn llwybr i unigolyn ddod yn athro cymwysedig o dan reoliad 5 o Reoliadau 2012 ac ennill SAC sy'n cyfuno hyfforddiant ar sail cyflogaeth â chyfnod o hyfforddiant ychwanegol cyn cyflogaeth. O dan y rhaglen hon, caiff graddedigion nad oes ganddynt SAC ymgymryd â hyfforddiant at ddibenion y RhHYR fel rhan o Gynllun 2019 er mwyn iddynt fedru bodloni'r safonau penodedig. Gallai'r hyfforddiant gynnwys cyfres o hyfforddiant cychwynnol cyn cyflogaeth i'w ddilyn gan gyfnod o hyfforddiant ar sail cyflogaeth mewn ysgol wrth ddilyn rhaglen hyfforddi sydd wedi’i chymeradwyo.

13. Gall sefydliad cymeradwy drefnu a gweithredu'r RhHYR, ond rhaid i ddarparwr rhaglen AGA achrededig roi'r hyfforddiant ar sail cyflogaeth. Yn achos y gyfres o hyfforddiant cychwynnol cyn cyflogaeth yn unig, gall

[4] Ar hyn o bryd, Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 (2012 Rhif 724)

[5] Ar hyn o bryd, Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Athrawon Ysgol) (Lloegr) 2003 (O.S. 2003/1662) fel y’u diwygiwyd gan, O.S. 2007/2782, 2009/3156, 2010/1172, O.S. 2012/431, O.S. 2012/1736 ac O.S. 2014/2697

darparwr AGA achrededig yn Lloegr roi'r hyfforddiant ar y cyd â darparwr AGA achrededig.

14. Nid yw unigolion sy'n ymgymryd â hyfforddiant at ddibenion y RhAG neu'r RhHYR fel rhan o'r cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth yn athrawon cymwysedig. Er hynny, gallant addysgu mewn ysgol yn unol â darpariaethau paragraff 7 Atodlen 3 i Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015.

15. Dim ond os rhoddir targedau derbyn iddynt gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r darpariaethau ym mharagraff 16 isod y caiff darparwyr AGA achrededig yng Nghymru weithredu'r RhAG.

Gweinyddu'r RhAG

16. Caiff Gweinidogion Cymru bennu targedau derbyn ar gyfer y RhAG ar gyfer blynyddoedd academaidd penodedig a bydd y targedau hyn yn cael eu rhoi'n uniongyrchol i ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth yng Nghymru. Fel rhan o'r broses hysbysu hon, bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi datganiad blynyddol ar bolisïau a blaenoriaethau o dan reoliad 8(5) o Reoliadau 2012, a fydd yn nodi'r meysydd polisi hynny a fydd yn cael blaenoriaeth ac y bydd yn ofynnol i ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth ganolbwyntio arnynt ar gyfer y blynyddoedd academaidd penodedig, a hynny o ran y niferoedd a ddynodwyd iddynt o dan y targed derbyn ac o ran yr adnoddau sydd ganddynt.

17. Bydd y datganiad blynyddol ar bolisïau a blaenoriaethau hefyd yn nodi unrhyw arian grant a allai fod ar gael o dan delerau paragraffau 34-41 i gefnogi'r RhAG lle bydd targedau derbyn yn cael eu pennu ar gyfer y rhaglenni hynny ar gyfer y blynyddoedd academaidd penodedig.

Dyletswyddau darparwyr AGA ar sail cyflogaeth mewn perthynas â'r RhAG

18. Rhaid i ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth yng Nghymru:-

(a) farchnata, rhoi cyhoeddusrwydd a gweithredu'r RhAG yn unol â datganiad blynyddol Gweinidogion Cymru am y polisi a'r blaenoriaethau;

(b) ystyried ceisiadau am leoedd o dan Gynllun 2015 yn unol â'r gofynion mynediad (paragraffau EBR1.1 i EBR1.6 o Atodiad A) a phenderfynu a yw unigolion yn addas i hyfforddi fel athro drwy'r RhAG;

(c) llunio a darparu cynllun hyfforddi ar gyfer hyfforddeion RhAG a thrafod gyda'r ysgolion sy'n cyflogi'r hyfforddeion bob agwedd ar yr hyfforddiant y mae ei angen er mwyn galluogi hyfforddeion i fodloni'r safonau penodedig;

(d) trefnu bod yr hyfforddeion yn cael eu hasesu yn unol â'r safonau penodedig gan ddefnyddio'r un trefniadau asesu ag sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y rheini sy'n dilyn cyrsiau AGA;

(e) bod yn gyfrifol am bob agwedd ar weinyddu a darparu Cynllun 2019 o fewn y gofynion a bennir yn y datganiad blynyddol ar bolisïau a blaenoriaethau, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer dewis hyfforddeion ar gyfer y lleoedd sydd ar gael; rheoli'r prosesau apelio; gwneud y trefniadau angenrheidiol i dalu'r ysgolion sy'n cymryd rhan; a monitro cynnydd yr hyfforddeion.

19. Cyn y caiff unigolyn ei dderbyn ar y RhAG, rhaid i ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth sicrhau bod y darpar hyfforddeion yn bodloni'r holl ofynion mynediad a amlinellir ym mharagraffau EBR1.1 i EBR1.6 o Atodiad A[6]. Rhaid i ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth yng Nghymru hefyd sicrhau bod:-

(a) systemau priodol ar gael i ofyn am wybodaeth ynghylch a oes gan ddarpar hyfforddeion gefndir troseddol a allai eu hatal rhag gweithio gyda phlant neu unigolion ifanc (neu a allai olygu eu bod yn anaddas i weithio gyda hwy), neu fel athro neu athrawes; a sicrhau nad yw'r darpar hyfforddeion wedi cael eu heithrio rhag addysgu neu weithio gyda phlant yn y gorffennol;

(b) pob ymgeisydd a dderbyniwyd ar y RhAG, fel rhan o'r gweithdrefnau dethol, wedi cael cyfweliad priodol.

20. Rhaid i ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth fodloni:-

(a) y gofynion hyfforddi ac asesu a nodir ym mharagraffau EBR2.1 i EBR2.9 o Atodiad A;

(b) y gofynion ynghylch rheoli'r bartneriaeth hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth a amlinellir ym mharagraffau EBR3.1 i EBR3.3 o Atodiad A;

(c) y gofynion ynglŷn â sicrhau ansawdd a nodir ym mharagraffau EBR4.1 i EBR4.5 o Atodiad A.

21. Rhaid i ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth wneud trefniadau ag ysgol(ion) addas er mwyn cadarnhau lleoliadau ar gyfer hyfforddeion a sicrhau y gall yr ysgol(ion), gydol y rhaglen RhAG, ac yn ystod unrhyw ran ohoni, ddarparu'r hyn sydd ei angen er mwyn galluogi hyfforddeion i ddangos eu bod yn bodloni'r safonau penodedig.[7] Drwy wneud hyn, rhaid i ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth sicrhau nad oes mwy na thri hyfforddai yn cael eu lleoli mewn unrhyw un ysgol yn ystod un flwyddyn academaidd.

22. Rhaid i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth, ar ôl archwilio sgiliau ac asesu anghenion yr hyfforddai, bennu manylion penodol yr hyfforddiant sydd i'w ddarparu i'r hyfforddai ynghyd â hyd y cyfnod arfaethedig o hyfforddiant. Bydd gofyn nodi'r manylion hyn mewn cynllun hyfforddi unigol y cytunir arno'n ffurfiol â'r ysgol lle y bydd yr hyfforddai yn derbyn ei hyfforddiant a chyda'r hyfforddai.

---

[6] Mae'r gofynion o ran mynediad a dethol yr hyfforddeion yn safonau gofynnol. Gall fod gan ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth unigol feini prawf ychwanegol y byddant yn dymuno eu defnyddio a gallant wneud hynny ar yr amod bod y safonau gofynnol yn cael eu bodloni.

[7] Nid oes yn rhaid i ddarparwyr HCA ar sail cyflogaeth drefnu ysgolion penodol ar gyfer hyfforddeion RhAG. Dylai darpar hyfforddeion RhAG ddod o hyd i ysgol sy'n barod i'w cyflogi a'u cefnogi gydol eu hyfforddiant.

23. Rhaid i hyd y cyfnod arfaethedig o hyfforddiant gyd-fynd ag anghenion yr hyfforddai o ran profiad ymarferol o addysgu a hyfforddiant. O ran ceisiadau cyntaf, lle y caiff hyfforddai ei gyflogi'n amser llawn, ni all y cyfnod arfaethedig o hyfforddiant fod yn llai na thri mis (neu un tymor academaidd) nac yn hwy nag un flwyddyn academaidd. Rhaid i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth oruchwylio'r modd y caiff y cynllun hyfforddi unigol ei weithredu.

24. Rhaid i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth fodloni'r gofynion lleiaf o ran amser hyfforddi mewn ysgolion a hyfforddiant a arweinir gan brifysgol fel y'u nodwyd ym mharagraff EBR 2.6 o Atodiad A. O ran rhaglenni hyfforddiant sy'n llai nag un flwyddyn academaidd o hyd, bydd y cyfnod o hyfforddiant a arweinir gan brifysgol a'r cyfnod mewn ail ysgol a/neu ysgol(ion) arall/eraill yn cael eu trefnu ar sail pro rata, gan ddibynnu ar anghenion yr hyfforddai ac anghenion yr ysgol.

Gofynion cyffredinol y RhAG

(i) darparu hyfforddiant

25. Rhaid i ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth sicrhau bod yr hyfforddai, yn ystod y cyfnod o hyfforddiant ar sail cyflogaeth, yn cael yr hyfforddiant y cytunwyd arno yn y cynllun hyfforddi unigol y cyfeirir ato ym mharagraff 22.

26. Rhaid i ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth wneud trefniadau er mwyn sicrhau y gall hyfforddeion dderbyn yr hyfforddiant angenrheidiol mewn ysgol arall, os oes angen, er mwyn eu galluogi i fodloni'r safonau penodedig, mewn achosion lle:-

(a) nid yw'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan ysgol yn unol â'r hyn y cytunwyd arno mewn cynllun hyfforddi unigol (am ba bynnag reswm) ac nid yw'n bosibl datrys y sefyllfa mewn modd boddhaol;

(b) mae ysgol yn cau; neu

(c) mae ysgol yn newid ei chategori.

(ii) terfynu rhaglen hyfforddi yn gynnar

27. Bydd rhaglen hyfforddi o dan y RhAG yn dod i ben cyn i'r cynllun hyfforddi unigol y cyfeirir ato ym mharagraff 22 gael ei gwblhau neu cyn i asesiad gael ei wneud o dan ddarpariaethau paragraff 31:

(a) os bydd hyfforddai yn tynnu'n ôl o'r RhAG , boed oherwydd salwch, beichiogrwydd neu fel arall; neu

(b) os bydd yr hyfforddai'n peidio â chael ei gyflogi gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol a oedd yn ei gyflogi ar ddechrau'r cynllun hyfforddi unigol y cyfeirir ato ym mharagraff 22:-

(i) os yw hynny'n digwydd oherwydd newid categori ysgol neu ysgolion (yn ôl fel y digwydd) lle mae'n cael ei gyflogi i fath arall o ysgol neu ysgolion, neu

(ii) os yw ysgol neu ysgolion (yn ôl fel y digwydd) lle y cânt eu cyflogi yn cau, neu

(iii) os awdurdod lleol yng Nghymru oedd y cyflogwr a bod yr hyfforddai, yn union ar ôl peidio â chael ei gyflogi gan yr

awdurdod hwnnw, yn cael ei gyflogi gan awdurdod lleol arall yng Nghymru; neu

(c) os nad yw'r hyfforddai ym marn resymol y darparwr AGA ar sail cyflogaeth yn llwyddo i wneud cynnydd boddhaol yn ystod y rhaglen hyfforddi i'w alluogi i fodloni'r safonau penodedig.

(iii) estyn neu adfer rhaglen hyfforddi

28. Caiff darparwr AGA ar sail cyflogaeth estyn neu adfer hyfforddiant o dan y RhAG :-

(a) os na chyflawnwyd yr hyfforddiant, neu os nad yw'n debygol o gael ei gyflawni yn llawn fel y cytunwyd yn y cynllun hyfforddi unigol am resymau salwch, beichiogrwydd neu amgylchiadau eraill y tu hwnt i reolaeth yr hyfforddai; neu

(b) os yw'r hyfforddai o dan sylw yn dymuno parhau â'i hyfforddiant yn yr un ysgol neu ysgolion, ond bod y darparwr AGA ar sail cyflogaeth o'r farn nad oes digon o amser yn weddill yn y rhaglen hyfforddi unigol i'w alluogi i fodloni'r safonau penodedig.

29. Yn achos unrhyw raglen a estynnir neu a adferir o dan ddarpariaethau paragraff 28, rhaid i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth sicrhau y byddai'n ddigon hir i ganiatáu i'r hyfforddai gwblhau ei hyfforddiant yn unol â'i gynllun hyfforddi unigol y cytunwyd arno er mwyn bodloni'r safonau penodedig. Y cyfnod lleiaf o estyniad y caniateir ei roi yw cyfnod o 3 mis.

30. Ni fydd Gweinidogion Cymru o dan unrhyw rwymedigaeth i ddarparu unrhyw gyllid pellach, yn ychwanegol at yr hyn a bennwyd yn eu datganiad blynyddol ar bolisïau a blaenoriaethau lle y caiff rhaglen hyfforddi ei hestyn neu ei hailgyflwyno.

(iv) asesu hyfforddeion

31. Ar ddiwedd y cyfnod hyfforddi rhaid i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth drefnu i'r hyfforddai gael ei asesu yn erbyn y safonau penodedig. Rhaid i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth ddefnyddio'r un trefniadau asesu ag sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y rheini sy'n dilyn cyrsiau AGA.

32. Ar ôl yr asesiad, rhaid i ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth gadarnhau i'r corff priodol[8] y gall hyfforddeion RhAG gael eu hysbysu eu bod yn athrawon cymwys ar yr amod eu bod:-

(a) wedi cwblhau'r RhAG yn llwyddiannus yn erbyn telerau cynllun hyfforddi unigol y cytunwyd arnynt ymlaen llaw am gyfnod o hyfforddiant ar sail cyflogaeth nad yw'n llai na thri mis (neu un tymor academaidd) o wasanaeth;

(b) wedi'u asesu felunigolion sy'n bodloni'r safonau penodedig;

[8] Adeg cyhoeddi, y corff priodol o dan Reoliadau 2012 yw Cyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor"). Caiff Gweinidogion Cymru hefyd roi gwybod i unigolion eu bod yn athrawon cymwysedig ond maen nhw wedi cytuno ar drefniadau gyda'r Cyngor er mwyn i'r Cyngor drafod pob achos heblaw o dan amgylchiadau eithriadol.

(c) yn meddu ar radd gyntaf neu gymhwyster cyfatebol a ddyfarnwyd gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig, neu gymhwyster a ddyfarnwyd mewn sefydliad addysgol yn rhywle arall, sydd o safon gyfatebol ym marn Gweinidogion Cymru.

(v) proses apelio

33. Rhaid i ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth wneud darpariaeth ar gyfer proses apelio i unigolion sy'n ymgymryd â'r RhAG sy'n gyson â'r arferion a/neu'r prosesau cyfredol sydd ar gael i ystyried apelau gan hyfforddeion ar unrhyw gwrs neu raglen AGA y maent yn eu darparu.

Grantiau RhAG

34. Gallai Gweinidogion Cymru sicrhau bod grantiau ar gael i ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth i'w darparu i ysgolion a gynhelir neu ysgolion arbennig nas cynhelir sy'n cyflogi unigolion sydd ag awdurdod i ymgymryd â hyfforddiant at ddibenion y RhAG er mwyn bodloni'n llawn, neu'n rhannol, gostau cyflogau'r unigolion hynny ("grantiau cyflog").

35. Gallai Gweinidogion Cymru ddarparu grantiau i ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth sy'n darparu hyfforddiant at ddibenion y RhAG er mwyn bodloni'n llawn, neu'n rhannol, gostau'r hyfforddiant hwnnw ("grantiau hyfforddi"). Lle y caiff grant hyfforddi ei ddarparu i ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth, un o amodau'r grant yw na chaniateir i ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth geisio unrhyw gyllid ychwanegol mewn cysylltiad â hyfforddiant at ddibenion y RhAG oddi wrth unrhyw ysgol sy'n rhan o'r rhaglenni hynny.

36. Gall Gweinidogion Cymru:-

(a) bennu swm unrhyw grantiau cyflog neu grantiau hyfforddi y maent yn darparu ar lefel y maent o'r farn ei bod yn briodol;

(b) cyfyngu ar nifer y grantiau cyflog neu'r grantiau hyfforddi a gaiff eu cynnig mewn unrhyw flwyddyn academaidd benodedig;

(c) darparu grantiau cyflog neu grantiau hyfforddi dim ond mewn achosion lle'r ymgymerir â hyfforddiant at ddibenion y RhAG mewn perthynas â chamau addysgu penodol neu bynciau penodol, neu mewn perthynas â mathau arbennig o geisiadau neu gynlluniau hyfforddi unigol.

37. Gall Gweinidogion Cymru ddarparu grant i ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth sy'n derbyn cyllid o dan baragraff 34 gyda grant ar lefel y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol er mwyn cydnabod y costau gweinyddol a'r costau cysylltiedig o ran gwneud taliadau o dan y paragraff hwnnw.

38. Gall Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i unrhyw grant a ddarperir o dan y darpariaethau ym mharagraff 34 a/neu 35 gael ei ad-dalu yn gyfan neu'n rhannol os yw cyfnod yr hyfforddiant, am ba bynnag reswm, yn llai na chyfnod yr hyfforddiant a bennir mewn unrhyw gynllun hyfforddi unigol y cyfeirir ato ym mharagraff 22.

39. Bydd y swm y bydd gofyn ei ad-dalu am unrhyw grant a ddarperir o dan y darpariaethau ym mharagraff 34 hyd at uchafswm cyfran y grant a ddarperir, sy'n cyfateb i gyfran y cyfnod o hyfforddiant a bennir mewn cynllun hyfforddi unigol, y cyfeirir ato ym mharagraff 22, pan na chynhaliwyd unrhyw hyfforddiant. Y swm y bydd gofyn ei ad-dalu am unrhyw grant a ddarparwyd o dan ddarpariaethau paragraff 35 fydd unrhyw arian grant nad oedd wedi'i ddefnyddio ar yr adeg pan ddaeth yr hyfforddiant i ben.

40. Gallai Gweinidogion Cymru dalu am unrhyw gostau y maent o'r farn eu bod yn briodol yn gysylltiedig â chais unigolyn am hyfforddiant o dan y RhAG ac asesiad dilynol yn unol â'r safonau penodedig.

41. Cyn darparu unrhyw grantiau neu ddarparu costau eraill mewn unrhyw flwyddyn ariannol rhaid i Weinidogion Cymru yn gyntaf bennu'r grantiau a'r costau a faint ohonynt sydd ar gael yn y datganiad blynyddol ar bolisïau a blaenoriaethau y maent yn ei ddosbarthu i ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth o dan ddarpariaethau paragraff 16.

Monitro a gwerthuso'r RhAG

42. Rhaid i ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth sy'n cyflwyno hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth o dan y RhAG roi gwybodaeth i Weinidogion Cymru (ar y ffurf a bennir gan Lywodraeth Cymru o dro i dro) sy'n nodi statws a nifer yr hyfforddeion ar y RhAG; y costau perthynol; deilliannau'r rhaglenni hyfforddi; ynghyd ag unrhyw ddata arall a allai fod yn ofynnol.

Gweinyddu'r RhHYR

43. Caiff Gweinidogion Cymru bennu targedau derbyn ar gyfer y RhHYR ar gyfer blynyddoedd academaidd penodedig a bydd y targedau hyn yn cael eu rhoi'n uniongyrchol i'r sefydliad cymeradwy. Fel rhan o'r broses hysbysu hon, bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi canllawiau blynyddol o dan ddarpariaethau rheoliad 8(5) o Reoliadau 2012, a fydd yn nodi'r meysydd polisi hynny a fydd yn cael blaenoriaeth ac y dylai'r sefydliad cymeradwy ganolbwyntio arnynt ar gyfer y blynyddoedd academaidd penodedig, a hynny o ran y niferoedd a ddynodwyd iddo o dan y targed derbyn ac o ran yr adnoddau sydd ganddo.

Dyletswyddau'r sefydliad cymeradwy mewn perthynas â'r RhHYR

44. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy:-

(a) farchnata, rhoi cyhoeddusrwydd a gweithredu'r RhHYR yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan ddarpariaethau paragraff 43;

(b) ystyried ceisiadau am leoedd o dan Gynllun 2019 yn unol â'r gofynion mynediad (paragraffau EBR1.1 i EBR1.6 o Atodiad A) a phenderfynu a yw unigolion yn addas i hyfforddi fel athro o dan y RhHYR;

(c) trefnu, ar y cyd â darparwr rhaglen AGA achrededig (ac, fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff 52, darparwr AGA achrededig yn Lloegr), i gyfnod penodol o hyfforddiant cychwynnol cyn cyflogaeth gael ei lunio a'i ddarparu i hyfforddeion y RhHYR, a'r

hyfforddiant hwnnw i'w gwblhau cyn i'r hyfforddeion ddechrau ar gyfnod o hyfforddiant ar sail cyflogaeth mewn ysgol lle y cânt eu cyflogi i addysgu;

(d) llunio a darparu, ar y cyd â darparwr rhaglen AGA achrededig, gynllun hyfforddi ar gyfer hyfforddeion y RhHYR i'w ddilyn tra bônt yn cael eu cyflogi i addysgu mewn ysgol, a sicrhau bod y darparwr AGA achrededig yn trafod, ag ysgolion sy'n cyflogi'r hyfforddeion, bob agwedd ar yr hyfforddiant sydd ei angen i alluogi hyfforddeion i fodloni'r safonau penodedig;

(e) trefnu bod yr hyfforddeion yn cael eu hasesu gan ddarparwr rhaglen AGA achrededig yn unol â'r safonau penodedig gan ddefnyddio'r un trefniadau asesu ag sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y rheini sy'n dilyn cyrsiau AGA;

(f) bod yn gyfrifol am bob agwedd ar weinyddu a darparu Cynllun 2019 o fewn y canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan ddarpariaethau paragraff 43, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer dethol hyfforddeion ar gyfer y lleoedd sydd ar gael; rheoli'r prosesau apelio; a monitro cynnydd yr hyfforddeion.

45. Cyn y caiff unigolyn ei dderbyn ar y RhHYR, rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod y darpar hyfforddeion yn bodloni'r holl ofynion mynediad a amlinellir ym mharagraffau EBR1.1 i EBR1.6 o Atodiad A[9]. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod

(a) systemau priodol ar gael i ofyn am wybodaeth ynghylch a oes gan ddarpar hyfforddeion gefndir troseddol a allai eu hatal rhag gweithio gyda phlant neu unigolion ifanc (neu a allai olygu eu bod yn anaddas i weithio gyda hwy), neu fel athro neu athrawes; a sicrhau nad yw'r darpar hyfforddeion wedi cael eu heithrio rhag addysgu neu weithio gyda phlant yn y gorffennol;

(b) pob ymgeisydd a dderbyniwyd ar y RhHYR, fel rhan o'r gweithdrefnau dethol, wedi cymryd rhan mewn cyfweliad addas.

46. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod cynnwys, strwythur a'r modd y darperir y cyfnod penodedig o hyfforddiant cychwynnol cyn cyflogaeth ar gyfer hyfforddeion y RhHYR yn adlewyrchu'r safonau penodedig, ac y bydd, ynghyd â'r rhaglen hyfforddi a chaiff ei dilyn tra bônt yn cael eu cyflogi i addysgu mewn ysgol, yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i ddangos eu bod yn bodloni'r safonau penodedig.

47. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod darparwyr rhaglenni AGA achrededig yn bodloni:-

(a) y gofynion hyfforddi ac asesu a nodir ym mharagraffau EBR2.1 i EBR2.9 o Atodiad A;

[9] Mae'r gofynion o ran mynediad a dethol yr hyfforddeion yn safonau gofynnol. Mae'n bosibl y bydd gan y sefydliad cymeradwy feini prawf ychwanegol y bydd yn dymuno eu defnyddio a gall wneud hynny ar yr amod bod y safonau gofynnol yn cael eu bodloni.

(b) gofynion ynghylch rheoli'r bartneriaeth hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth a amlinellir ym mharagraffau EBR3.1 i EBR3.3 o Atodiad A;

(c) y gofynion ynglŷn â sicrhau ansawdd a nodir ym mharagraffau EBR4.1 i EBR4.5 o Atodiad A.

48. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy, ar y cyd â darparwr rhaglen AGA achrededig, wneud trefniadau ag ysgol(ion) addas er mwyn cadarnhau lleoliadau ar gyfer hyfforddeion a sicrhau y gall yr ysgol(ion), gydol y rhaglen RhHYR, ac yn ystod unrhyw ran ohoni, ddarparu'r hyn sydd ei angen er mwyn galluogi hyfforddeion i ddangos eu bod yn bodloni'r safonau penodedig. Drwy wneud hyn, rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau nad oes mwy na thri hyfforddai RhHYR newydd yn cael eu lleoli mewn unrhyw un ysgol yn ystod un flwyddyn academaidd.

49. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod darparwr rhaglen AGA achrededig, ar ôl archwilio sgiliau ac asesu anghenion yr hyfforddai, wedi pennu manylion penodol yr hyfforddiant sydd i'w ddarparu i'r hyfforddeion ynghyd â hyd y cyfnod arfaethedig o hyfforddiant. Bydd gofyn nodi'r manylion hyn mewn cynllun hyfforddi unigol y cytunir arno'n ffurfiol â'r ysgol lle y bydd yr hyfforddai yn derbyn ei hyfforddiant a chyda'r hyfforddai.

50. Rhaid i hyd y cyfnod arfaethedig o hyfforddiant gyd-fynd ag anghenion yr hyfforddai o ran profiad ymarferol o addysgu a hyfforddiant. O ran ceisiadau cyntaf, lle y caiff hyfforddai ei gyflogi'n amser llawn, ni all y cyfnod arfaethedig o hyfforddiant fod yn llai na thri mis (neu un tymor academaidd) nac yn hwy nag un flwyddyn academaidd. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod darparwr rhaglen AGA achrededig yn goruwchylio'r modd y caiff y cynllun hyfforddi unigol ei ddarparu.

51. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod darparwr rhaglen AGA achrededig yn bodloni'r gofynion lleiaf o ran amser hyfforddi mewn ysgolion a hyfforddiant a arweinir gan brifysgol, fel y'u nodwyd ym mharagraff EBR 2.6 o Atodiad A. O ran rhaglenni hyfforddi sy'n llai nag un flwyddyn academaidd o hyd, bydd y cyfnod o hyfforddiant a arweinir gan brifysgol a'r cyfnod mewn ail ysgol a/neu ysgol(ion) arall/eraill yn cael eu trefnu ar sail pro rata, gan ddibynnu ar anghenion yr hyfforddai ac anghenion yr ysgol.

Gofynion cyffredinol y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion (RhHYR)

(i) darparu cyfnod o hyfforddiant cychwynnol

52. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy ddarparu, ar y cyd â darparwr rhaglen AGA achrededig, gyfnod penodedig o hyfforddiant cychwynnol cyn cyflogaeth i hyfforddeion y RhHYR, i'w gwblhau cyn i'r hyfforddeion gael eu cyflogi i addysgu mewn ysgol. Rhaid i o leiaf 50% o'r cyfnod hyfforddi cychwynnol cyn cyflogaeth gael ei ddarparu yng Nghymru. Gall darparwr rhaglen AGA achrededig yn Lloegr gymryd rhan yn y gwaith o lunio a darparu cwrs ar y cyd â darparwr rhaglen AGA achrededig, ond ni all darparwr AGA achrededig yn Lloegr ddarparu dim mwy na 50% o'r hyfforddiant cychwynnol cyn cyflogaeth.

(ii) darparu hyfforddiant ar sail cyflogaeth

53. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod yr hyfforddai, yn ystod y cyfnod o hyfforddiant ar sail cyflogaeth, yn cael, gan ddarparwr rhaglen AGA achrededig, yr hyfforddiant y cytunwyd arno yn y cynllun hyfforddi unigol y cyfeirir ato ym mharagraff 49.

54. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy, gan drafod â'r darparwr rhaglen AGA achrededig, wneud trefniadau er mwyn sicrhau y gall hyfforddeion dderbyn yr hyfforddiant angenrheidiol mewn ysgol arall, os oes angen, er mwyn eu galluogi i fodloni'r safonau penodedig, mewn achosion lle:-

(a) nid yw'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan ysgol yn unol â'r hyn y cytunwyd arno mewn cynllun hyfforddi unigol (am ba bynnag reswm) ac nid yw'n bosibl datrys y sefyllfa mewn modd boddhaol;

(b) mae ysgol yn cau; neu

(c) mae ysgol yn newid ei chategori.

(iii) terfynu rhaglen hyfforddi yn gynnar

55. Bydd rhaglen hyfforddi o dan y RhHYR yn dod i ben cyn i'r cynllun hyfforddi unigol y cyfeirir ato ym mharagraff 49 gael ei gwblhau neu cyn i asesiad gael ei wneud o dan ddarpariaethau paragraff 58:

(a) os bydd hyfforddai yn tynnu'n ôl o'r RhHYR, boed oherwydd salwch, beichiogrwydd neu fel arall; neu

(b) os yw'r hyfforddai dan sylw yn peidio â chael ei gyflogi gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol a oedd yn ei gyflogi ar ddechrau'r cynllun hyfforddi unigol y cyfeirir ato ym mharagraff 49 ac eithrio:-

(i) os yw hynny'n digwydd oherwydd newid categori ysgol neu ysgolion (yn ôl fel y digwydd) lle mae'n cael ei gyflogi i fath arall o ysgol neu ysgolion, neu

(ii) os yw hynny'n digwydd oherwydd cau ysgol neu ysgolion (yn ôl fel y digwydd) lle y cânt eu cyflogi, neu

(iii) os awdurdod lleol yng Nghymru oedd y cyflogwr a bod yr hyfforddai, yn union ar ôl peidio â chael ei gyflogi gan yr awdurdod hwnnw, yn cael ei gyflogi gan awdurdod lleol arall yng Nghymru; neu

(c) os nad yw'r hyfforddai ym marn resymol darparwr rhaglen AGA achrededig yn llwyddo i wneud cynnydd boddhaol yn ystod y rhaglen hyfforddi a fydd yn ei alluogi i fodloni'r safonau penodedig.

(iv) estyn neu adfer rhaglen hyfforddi

56. Caiff y sefydliad cymeradwy estyn neu adfer rhaglen hyfforddi o dan y RhHYR:

(a) os na chyflawnwyd yr hyfforddiant, neu os nad yw'n debygol o gael ei gyflawni, yn llawn fel y cytunwyd yn y cynllun hyfforddi unigol am resymau salwch, beichiogrwydd neu amgylchiadau eraill y tu hwnt i reolaeth yr hyfforddai; neu

(b) os yw'r hyfforddai o dan sylw yn dymuno parhau â'i hyfforddiant yn yr un ysgol neu ysgolion, ond bod y darparwr AGA o'r farn nad oes digon o amser yn weddill yn y rhaglen hyfforddi unigol i'w alluogi i fodloni'r safonau penodedig.

57. Yn achos unrhyw raglen a estynnir neu a adferir o dan ddarpariaethau paragraff 56, rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod darparwr rhaglen AGA achrededig yn fodlon y byddai'n ddigon hir i ganiatáu i'r hyfforddai gwblhau ei hyfforddiant yn unol â'i gynllun hyfforddi unigol y cytunwyd arno er mwyn bodloni'r safonau penodedig. Y cyfnod lleiaf o estyniad y caniateir ei roi yw cyfnod o 3 mis.

(v) asesu hyfforddeion y Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion

58. Ar ddiwedd y cyfnod hyfforddi rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod darparwr rhaglen AGA achrededig yn trefnu i'r hyfforddeion gael eu hasesu yn erbyn y safonau penodedig. Rhaid i'r darparwr AGA achrededig ddefnyddio'r un trefniadau asesu a ddefnyddir ar gyfer unigolion sy'n dilyn cyrsiau AGA.

59. Ar ôl yr asesiad, rhaid i ddarparwr AGA gadarnhau wrth y corff priodol[10] (gan anfon copi o'r cadarnhad hwn i'r sefydliad cymeradwy) y gall hyfforddeion y RhHYR gael eu hysbysu eu bod yn athrawon cymwys ar yr amod eu bod:-

(a) wedi cwblhau cyfnod penodedig o hyfforddiant cychwynnol cyn cyflogaeth ar gyfer hyfforddeion y RhHYR cyn cael eu cyflogi i addysgu mewn ysgol;

(b) wedi cwblhau'r RhHYR yn llwyddiannus yn erbyn telerau'r cynllun hyfforddi unigol y cytunwyd arno ymlaen llaw am gyfnod o hyfforddiant seiliedig ar gyflogaeth nad yw'n llai na thri mis (neu un tymor academaidd);

(c) wedi'u hasesu fel unigolion sy'n bodloni'r safonau penodedig;

(d) yn meddu ar radd gyntaf neu gymhwyster cyfatebol a ddyfarnwyd gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig, neu gymhwyster a ddyfarnwyd mewn sefydliad addysgol yn rhywle arall, sydd o safon gyfatebol ym marn Gweinidogion Cymru.

(vi) proses apelio

60. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy sicrhau bod darparwr rhaglen AGA achrededig yn gwneud darpariaeth ar gyfer proses apelio i unigolion sy'n ymgymryd â chynllun hyfforddiant y RhHYR tra bônt yn cael eu cyflogi i weithio mewn ysgol sy'n gyson â'r arferion a/neu'r prosesau cyfredol sydd ar gael i ystyried apelau gan hyfforddeion ar unrhyw gwrs neu raglen AGA y maent yn eu darparu.

[10] Adeg cyhoeddi, y corff priodol o dan Reoliadau 2012 yw Cyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor"). Caiff Gweinidogion Cymru hefyd roi gwybod i unigolion eu bod yn athrawon cymwysedig ond maen nhw wedi cytuno ar drefniadau gyda'r Cyngor er mwyn i'r Cyngor drafod pob achos heblaw o dan amgylchiadau eithriadol.

Monitro a gwerthuso'r RhHYR

61. Rhaid i'r sefydliad cymeradwy roi gwybodaeth i Weinidogion Cymru (ar y ffurf a bennir gan Weinidogion Cymru o dro i dro) sy'n nodi statws a nifer yr hyfforddeion ar y RhHYR; y costau perthynol; deilliannau'r rhaglenni hyfforddi; ynghyd ag unrhyw ddata arall a allai fod yn ofynnol.

Amseru a threfniadau trosiannol

62. Mae gofynion Cynllun 2019 yn gymwys i raglenni RhAG, os yw'r cyfnod hyfforddi'n dechrau ar 1 Medi 2019 neu wedi hynny, ac i raglenni'r RhHYR os yw'r cyfnod hyfforddi'n dechrau ar 1 Mehefin 2019 neu wedi hynny.

63. Ac eithrio fel y darperir ym mharagraff 64, bydd Cynllun 2015 yn peidio â chael effaith o 1 Medi 2019.

64. Bydd darpariaethau Cynllun 2015 yn dal yn gymwys yn achos rhaglenni'r RhAG lle y dechreuodd y cyfnod o hyfforddiant rhwng 1 Medi 2015 a 31 Awst 2019.

Llofnodwyd:



Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg

Un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: 13 March 2019

Atodiad A

Y gofynion ar gyfer darparu addysg gychwynnol i athrawon (AGA) ar gyfer rhaglenni hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth a weithredir o dan Gynllun 2019

EBR1: Gofynion mynediad[11]

Rhaid i bob unigolyn sy'n cychwyn ar raglenni hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth:-

EBR1.1 allu bodloni'r safonau penodedig erbyn diwedd eu rhaglen a meddu ar y nodweddion personol a deallusol priodol i fod yn athrawon;

EBR1.2 bod wedi cyrraedd safon sy'n cyfateb i radd B yn yr arholiad TGAU neu'n uwch mewn mathemateg a chymhwyster cyfatebol i radd B TGAU neu'n uwch mewn Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Cymraeg Iaith neu Lenyddiaeth Cymraeg. Os bydd gradd sy'n gyfwerth â B yn cael ei chyflawni mewn Llenyddiaeth Saesneg neu Lenyddiaeth Cymraeg, rhaid cyflawni o leiaf gradd C yn yr arholiad cyfatebol TGAU mewn Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith (Gyntaf);

EBR1.3 os ydynt yn bwriadu ymgymryd â rhaglenni hyfforddiant cynradd neu Gyfnodau Allweddol 2/3, fod wedi cyrraedd safon sy'n cyfateb i radd C yn yr arholiad TGAU mewn pwnc gwyddoniaeth;

EBR1.4 fodloni ei hun bod yr holl ymgeiswyr yn gallu darllen Cymraeg neu Saesneg yn effeithiol, ac yn gallu cyfathrebu'n glir ac yn gywir mewn Cymraeg neu Saesneg llafar ac ysgrifenedig;

EBR1.5 fodloni ei hun bod yr holl ymgeiswyr wedi cael eu hasesu fel unigolion sydd â sgiliau personol digonol o ran llythrennedd a rhifedd y gellir eu cymhwyso mewn cyd-destun addysgu proffesiynol;

EBR1.6 yn achos y RhAG a'r RhHYR, feddu ar radd gyntaf o sefydliad yn y Deyrnas Unedig neu gymhwyster cyfatebol;

EBR2: Hyfforddi ac asesu

Rhaid i bob darparwr rhaglen AGA achrededig:

EBR2.1 dylunio cynnwys, strwythur a chyflwyniad yr hyfforddiant i alluogi'r athrawon dan hyfforddiant i ddangos eu bod wedi bodloni'r safonau penodedig a ffurfioli hyn mewn cynllun hyfforddi unigol y cytunir arno gyda'r ysgol lle mae'r hyfforddai i gyflawni'r hyfforddiant;

[11] Mae'r gofynion o ran mynediad a dethol yr hyfforddeion yn safonau gofynnol. Mae'n bosibl y bydd gan ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth neu sefydliadau cymeradwy unigol feini prawf ychwanegol y byddant yn dymuno eu defnyddio a gallant wneud hynny ar yr amod bod y safonau gofynnol yn cael eu bodloni.

EBR2.2 sicrhau bod sgiliau personol yr hyfforddeion o ran llythrennedd a rhifedd yn cael eu hasesu'n rheolaidd ac yn gywir gydol eu cyfnod hyfforddi; ac, ar yr adeg pan gaiff hyfforddeion eu hasesu eu bod wedi bodloni'r Safonau Statws Athro Cymwysedig, fod y safonau a nodir yn EBR1.5 yn cael eu bodloni o hyd;

EBR 2.3 sicrhau bod cyraeddiadau'r hyfforddeion yn erbyn y safonau penodedig yn cael eu hasesu'n rheolaidd ac yn gywir, a bodloni ei hun bod yr holl hyfforddeion wedi'u hasesu yn unol â'r safonau penodedig cyn cadarnhau i'r corff priodol[12] y gellir eu hysbysu eu bod yn athrawon cymwysedig;

EBR2.4 sicrhau bod yr hyfforddiant yn cymryd i ystyriaeth anghenion hyfforddi unigol, ac yn arbennig bod:-

(a) hyd y cyfnod hyfforddi arfaethedig yn briodol ar gyfer angen yr hyfforddai am brofiad ymarferol o addysgu;

(b) yr ysgolion lle mae'r hyfforddeion yn cael eu cyflogi neu'n ymgymryd â hyfforddiant ynddynt yn gallu darparu, drwy gydol y rhaglen hyfforddi, yr hyn sy'n angenrheidiol i alluogi'r hyfforddai i fodloni'r safonau penodedig;

EBR2.5 paratoi'r holl athrawon dan hyfforddiant i addysgu ar draws o leiaf ddau Gyfnod Allweddol olynol;

EBR2.6 sicrhau bod:-

(a) yn achos cais cyntaf i'r RhAG neu'r RhHYR, lle mae'r hyfforddai i'w gyflogi'n amser llawn, nad yw'r rhaglen hyfforddi yn ddim llai na thri mis neu un tymor academaidd a dim mwy nag un flwyddyn academaidd[13];

(b) yr holl hyfforddeion ar y RhAG, y RhHYR neu'r RhAC yn cael profiad mewn ail ysgol neu ysgol(ion) arall/eraill ategol yn ogystal ag amser yn yr ysgol lle y cânt eu cyflogi;

(c) o leiaf 50 o ddiwrnodau o hyfforddiant ym mhob blwyddyn academaidd[14], ar wahân i'r amserlen addysgu, i ymgymryd â hwy mewn ysgol, gan gynnwys lleoliad mewn ysgol(ion) ar wahân i'r ysgol lle cyflogir yr hyfforddai. Gellid cyfrif hefyd ymarfer addysgu mewn lleoliadau ar wahân i'r ysgol lle y cyflogir yr hyfforddai fel rhan o'r cyfanswm hwn, ar yr amod eu bod yn galluogi'r hyfforddai i weithio at fodloni'r safonau penodedig;

---

[12] Adeg cyhoeddi, y corff priodol o dan Reoliadau 2012 yw Cyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor"). Caiff Gweinidogion Cymru hefyd roi gwybod i unigolion eu bod yn athrawon cymwysedig ond maen nhw wedi cytuno ar drefniadau gyda'r Cyngor er mwyn i'r Cyngor drafod pob achos heblaw o dan amgylchiadau eithriadol.

[13] Mewn achosion lle caiff hyfforddai ei gyflogi yn rhan-amser, dylid ymestyn y cyfnodau hyn ar sail pro-rata. Er enghraifft, os caiff hyfforddai ei gyflogi'n rhan-amser ar gyfradd sy'n cyfateb i hanner cyflogaeth amser llawn, ni ddylai rhaglen hyfforddi RhAG fod yn llai na chwe mis neu ddau dymor academaidd a dim mwy na dwy flynedd academaidd.

[14] Mewn achosion lle y caiff hyfforddai ei gyflogi'n rhan-amser, dylid lleihau'r cyfnodau hyn ar sail pro-rata. Er enghraifft, os caiff hyfforddai ei gyflogi'n rhan-amser ar gyfradd sy'n cyfateb i hanner cyflogaeth amser llawn, dylai rhaglen hyfforddi gynnwys o leiaf 25 o ddiwrnodau o hyfforddiant ym mhob blwyddyn academaidd, ar wahân i'r amserlen addysgu, i ymgymryd â hwy mewn ysgol.

(d) dylai pob hyfforddai ar y RhAG dderbyn yr hyn sydd gyfwerth ag o leiaf 10 o ddyddiau hyfforddi a arweinir gan brifysgol ac a drefnir gan ddarparwyr AGA ar sail cyflogaeth.

EBR2.7 sicrhau bod pob unigolyn ar raglenni hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth yn cael hyfforddiant ar addysgu llythrennedd a rhifedd sy'n briodol i'r cyfnod a'r pwnc a astudir, a bod hwn yn rhan anhepgor o'r rhaglen;

EBR2.8 sicrhau bod pawb yr asesir eu bod yn bodloni'r safonau penodedig yn cael Proffil Dechrau Gyrfa a chymorth i'w lenwi; eu bod yn cael gwybod am y trefniadau statudol[15] ar gyfer ymsefydlu athrawon newydd gymhwyso a'u bod wedi cael cymorth i baratoi ar eu cyfer;

EBR2.9 sicrhau bod yr hyfforddeion yn gyfarwydd â'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf am amddiffyn a diogelu plant.

EBR3: Rheoli partneriaethau gydag ysgolion

Rhaid i holl ddarparwyr rhaglenni AGA achrededig:

EBR3.1 weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion er mwyn:-

- cynllunio a chyflwyno rhaglenni hyfforddi unigol
- dethol a lleoli hyfforddeion
- asesu hyfforddeion yn erbyn y safonau penodedig.

EBR3.2 sefydlu cytundebau gydag ysgolion sy'n:-

- cytuno ar rôl pawb sy'n ymwneud â chyflwyno'r cynllun hyfforddi unigol
- cytuno â phawb ar y trefniadau ynglŷn â chyflwyno'r rhaglen hyfforddi unigol
- ei gwneud yn glir sut y caiff yr adnoddau eu dyrannu i'r rhai sy'n ymwneud â chyflwyno'r cynllun hyfforddi unigol.

EBR3.3 sicrhau bod y bartneriaeth gyda'r ysgol yn gweithio'n effeithiol a bod yr hyfforddiant yn gydlynol a chyson, gyda pharhad ar draws y cyd-destunau gwahanol y mae'n digwydd ynddynt.

EBR4: Sicrhau ansawdd

Rhaid i holl ddarparwyr rhaglenni AGA achrededig:-

EBR4.1 sicrhau bod gan yr hyfforddeion gyfle i gael y llyfrau, y dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu a'r adnoddau eraill y mae arnynt eu hangen - a'r rheini'n berthnasol i'r ystod oedran a'r pynciau y maent yn hyfforddi i'w haddysgu - er mwyn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'r hyfforddeion i'r safonau penodedig man lleiaf;

[15] Mae'r trefniadau ymsefydlu statudol ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso wedi'u pennu yn adrannau 17 i 19 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 a'r Rheoliadau a wnaed o danynt, sef Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/484).

EBR4.2 sicrhau bod yna weithdrefnau cymedroli trylwyr mewnol ac annibynnol allanol ar gael i sicrhau bod yr asesiadau'n ddibynadwy ac yn gywir;

EBR4.3 sicrhau bod materion ansawdd a godir drwy gymedroli mewnol ac allanol yn cael eu harchwilio a'u trafod er mwyn gwella'r hyfforddiant;

EBR4.4 mynd ati'n drefnus i fonitro a gwerthuso pob agwedd ar y ddarpariaeth er mwyn gwella'i hansawdd. Dylai systemau fod ar waith i:-

- nodi targedau ar gyfer gwella'r ddarpariaeth
- adolygu'r ddarpariaeth yn erbyn y targedau hyn
- pennu pa gamau sydd i'w cymryd i wneud gwelliannau
- sicrhau bod y camau penodedig yn cael eu cymryd, a'u bod yn arwain at welliant.

EBR4.5 os ydynt yn darparu hyfforddiant yn rheolaidd, meincnodi eu perfformiad dros amser, ac yn erbyn darparwyr tebyg, gan ddefnyddio tystiolaeth wedi'i chynhyrchu'n fewnol ac yn allanol fel sylfaen ar gyfer eu gwaith pennu targedau a'u cynlluniau ar gyfer gwella.